


# Etifeddiaeth Llanddowror: Sut mae mesur llythrennedd plant Cymru?

Marjorie Thomas  
PhD Dyslecsia  
Prifysgol Met Caerdydd



### Y Prosiect Ymchwil

Prosiect i ymchwilio a datblygu profion safonedig newydd i fesur llythrennedd Cymraeg ac i awgrymu rhesymau posibl dros anawsterau llythrennedd a weilir.

### Cydnabyddiaeth

Ariennir y prosiect hwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Fyddai'r fenter ddim yn bosibl heb gefnogaeth Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

### Llyfryddiaeth Gryno

Sizmur, J., Ager, R., Bradshaw, J., Classic, R., Galvis, M., Packer, J., Thomas, D. and Wheatler, R., 2019. Achievement of 15-year-old pupils in Wales PISA 2018 National report. [ebook] Slough: NFER. Available at: <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/achievement-15-year-olds-program-international-student-assessment-pisa-national-report-2018-0.pdf> [Accessed 13 June 2022].

Dauncey, M., 2021. Reading between the lines: Welsh children's literacy skills. [online] Research.senedd.wales. Available at: <https://research.senedd.wales/research-articles/reading-between-the-lines-welsh-children-s-literacy-skills/> [Accessed 13 June 2022].

2013. The Impact of Poverty on Educational Attainment in Cardiff. [ebook] Cardiff Council. Available at: <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Cynghorwyr-a-chyfarfodydd/Craffu/Adroddiadau-craffu/Documents/CYP-%20Impact%20of%20Poverty%20on%20Educational%20Attainment.pdf> [Accessed 13 June 2022].

James, E.W. 2020. Griffith Jones (1684–1761) of Llanddowror and his 'Striking Experiment in Mass Religious Education' in Wales in the Eighteenth Century. In The Camarthenshire Antiquary, vol 56, pp 63 – 73.



### Cefndir Ehangach y Prosiect

Rhwng 1731 a 1771 fe lwyddodd Ysgolion Cylchynol Gruffydd Jones ddysgu hanner poblogaeth Cymru i ddarllen. Cymru oedd un o wledydd mwyaf llythrennog yn Ewrop.

Erbyn heddiw, mae Cymru yn perfformio'n waeth na gwledydd eraill Prydain ar fesurau darllen rhyngwladol ac mae safon darllen ac ysgrifennu plant Cymru o hyd yn gaeth i lefelau amddifadedd.

## Amserlin y Prosiect Ymchwil

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                  |                                                     |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|-----------------------------------------------------|
| Ymchwil i faes dyslecsia, llythrennedd a dwyieithrwydd                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Creu bas data o ymarferwyr yn y maes llythrennedd                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Ymchwilio i ba fath o brofion fyddai fwyaf defnyddiol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Ysgrifennu'r profion a'u peilota | Safoni'r profion gyda sampl ehangach, cenedlaethol. |
| <p>Pwrpas y Prosiect Ymchwil</p> <p>Er mwyn mesur llythrennedd yn effeithiol yn y Gymraeg mae angen offer asesu cyfredol a pherthnasol.</p> <p>Os dymunir deall rhai o'r rhesymau dros anawsterau llythrennedd mae angen i'r asesiadau gynnwys profion diagnostig a fyddai'n gallu mesur sgiliau ar lefel gwybyddol sy'n angenrheidiol wrth ddatblygu llythrennedd, er enghraifft sgiliau ffonolegol.</p> <p>Pwrpas y prosiect yw i ffurfio casgliad o brofion er mwyn diwallu'r anghenion hyn.</p> | <p>Prosiect Rhan 1</p> <p>Mae Profion Glannau Menai yn cael eu defnyddio i fesur sillafu, cywirdeb darllen a dealltwriaeth darllen yn y Gymraeg ar hyn o bryd. Penderfynwyd defnyddio'r profion hyn fel sail i'r casgliad newydd o asesiadau oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Mae'n fformat sydd eisoes yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn y maes llythrennedd Cymraeg</li><li>Mae'r profion yn syml ac yn gyflym i'w defnyddio</li></ul> | <p>Methodoleg Rhan 1</p> <div><div>1</div><div>Llunio holiadur i gasglu barn ymarferwyr llythrennedd Cymraeg ar gryfderau Profion Glannau Menai ac ar sut i'w datblygu ymhellach.</div></div> <div><div>2</div><div>Dosbarthu'r holiadur trwy wefannau rhwydweithiau cymdeithasol a rhwydweithiau addysg</div></div> <div><div>3</div><div>Bwydo canlyniadau'r holidaur i mewn i gynllun y profion newydd</div></div> |                                  |                                                     |

Sampl o'r Atebion

Beth yw prif gryfderau Glannau Menai?



At ba bwrpas ydych chi'n defnyddio'r profion?




Beth yw ei brif wendidau?



Ydych chi'n defnyddio rhai elfennau mwy nag eraill?



A fyddai hi'n ddefnyddiol i chi os oedd y profion newydd yn cynnwys asesiadau gwybyddol fyddai'n gallu ymchwilio rhesymau posib dros anawsterau darllen a sillafu?



Cyswllt



ebost: st20214993@outlook.cardiffmet.ac.uk

trydar: @cannwyllycymry

nodwch eich diddordeb ar:  
[https://cardiffmet.eu.qualtrics.com/jfe/form/SV\\_eJW71nOg4PQe0Mm](https://cardiffmet.eu.qualtrics.com/jfe/form/SV_eJW71nOg4PQe0Mm)



Casgliad

- Mae'r ymarferwyr a atebodd yr holiadur yn defnyddio Profion Glannau Menai o hyd oherwydd does dim prawf arall tebyg yn Gymraeg
- Y defnydd mwyaf cyffredin yw fel prawf sillafu, ond mae'r rhannau darllen hefyd dal yn cael eu defnyddio yn eang, er bod terfyn oed y rhannau darllen yn creu rhwystredigaeth
- Prif gryfderau Profion Glannau Menai yw eu bod yn hawdd i weinyddu, yn safonedig ac yn Gymraeg
- Prif wendidau'r profion yw eu bod yn hen, mae rhai geiriau yn anodd ac ond un fersiwn o'r prawf sydd (hy rhaid ail-ddefnyddio'r un prawf pob tro felly mae'r plant yn dysgu'r atebion!)
- Roedd cryn dipyn o frwdfrydedd dros ddiwygio ac ehangu'r profion: i ddadansoddi sgiliau gwybyddol mewn modd diagnostig; i ychwanegu prawf paralel i ymestyn sgôp y profi; ac i allu defnyddio'r prawf wrth asesu am addasiadau arholiad